

GALAREB

ER COFFADWRIAETH PARCHUS

AM Y DIWEDDAR

BARCH. D. SAUNDERS,

YR HWN

A FU YN WEINIDOG CYFRIFOL

Yn mhlith y

BEDYDDWYR, YN MERTHYR-TYDFIL,

DROS AMRYW FLYNYDDOEDD.

Bu Farw Chwefror 4, 1840, yn 71 mlwydd oed.

GAN W. EVANS, (CAWR CYNON.)

“If there 's another world, he lives in bliss;
If there is none, he made the best of this.”
BURNS.

Derbyniodd yr Awdwr wobrwyr (£2) gan Gymdeithas Gymreigyddawl
Dowlais am yr Alareb hon, ar y 6ed o Fawrth 1843.

MERTHYR TYDFIL:
ARGRAFFWYD GAN REES LEWIS, HEOL-FAWR.

—
1843.

GALAREB.

* * Ystyriwyf fod bywyd y diweddar Barch. D: Saunders mor adnabyddus gan y rhai hyny y dygwydd yr Alareb hon fyned i'w dwylaw, fel nad oes achos wrth nodiadau eglurhaol er gwneuthur y darlleniad o honi yn fwy buddiol i'r darllenydd.

O FERTHYR fawreddawg! pa beth a ddaeth i ti!
Pa fodd y mae arnad? pa ham y galeri?
Tydi! yr enwcaf o ferched anrhydedd,
Sy'n syndod teyrnasoedd mewn cyfoeth a mawredd!
Pa beth! O pa beth! paham na'm hatebi,
Yw'r gwae a'th ofwyodd ar faingc dy uchelfri?

A sychodd dy iachus ffynonau grisialon,
Oedd gyflawn o win, ac o aur eu gwaelodion?
A ddarfu ar unwaith dy fwnawl drysorau
Yn nghelloedd goreurog dy ddrudfawr fynyddau?
A ballodd eu gwythu o aur ac o arian,
A'u meini anghydwerth sy'n nghoron hardd anian?
A droed o dy ganol ffynonell cysuron
Trafnidiaeth? (fe'th enwyd yn Dyrus neu Sidon;)
Neu ynte, a syrthiodd dy gedyrn golofnau,
Dy *Hill*, neu dy *Domson*; dy *Guest*, neu dy *Graw-
shay*?
O na, ped f'ai llwyddiant, enwogrwydd, a chynydd,
I alar yn drange, ac yn sail i lawenydd,

Myfi, yn ddiameu, o drefi 'r D'wysogaeth
 A welid ddedwyddaf; ond, O y mae hiraeth
 Yn llon'd fy myfyrdod! O! 'm SAUNDERS dirionaf!
 Anrhydedd ei ryw, ae o'm meib yr anwylaf.
 Ysgaru rhwng enaid a chorff, yn ddiameu
 Sy'n anhawdd ei oddef; mor anhawdd i minau
 Oedd colli o'm mynwes y peth a fawrygwn
 Yn fwy ac uwchlaw pob peth arall a feddwn.
 Y munud y gwelwodd yn angeu diymadfer,
 Holl flodau fy nghoron gollasant eu hirder.
 Bu i mi anrhydedd, a mynych hawddammor,
 Mawrygid fy enw yn nghartref a thramor:
 Myfi bioedd dawn, ae athrylith oedd eiddof,
 Doethineb a deall ni chydfydd mwy ynof:
 Gwywedig o'm hamgylch yw pob peth gan hiraeth,
 Pwl iawn uwch fy mro yw ffurfafen gwybodaeth;
 Y llawryf gwyrdd-leision a blethid mor enwog
 O gylch ei arleisiau gan awdwyr godidog,
 Fy meib llënyddawl a'u tzenant gan wylaw
 Yn awr yn wywedig ar feddrod eu bathraw.
 Telynau y beirdd uwch ei ben sy'n grogedig,
 Heb law i'w cyweirio, ar gangau gwywedig;
 Tra danynt mae'r Awen â'i dagrau yn gwlychu
 Y babel ca'dd ynddi cyhyd ei chartrefu.

Ein SAUNDERS a feddai ar enaid mawr, goleu,
 (Nid addas cylch bychan i'w erfawr drysorau.)
 Rbyw balas mawr ydoedd, o sylwedd diddarfod,
 O'i fewn yn llawn harddwch, heb nemawr o sorod:
 Prif emau gwybodaeth yn hwn a ddysgleiria.

Ac ogylch ei byrth ei pher-flodau* aroglai;
 Ei fuddiol gynhawysiad a ddenai enwogion
 Ei wlad i ryfeddu ei werthfawr gynyrchion.
 Yr hyn sy'n addurnawl yn nheithi dysgeidiaeth—
 Pob gem a ddysgleiria yn nghoron gwybodaeth,
 A phob peth a fernid yn dda neu rinweddawl
 A geid ynddo ef mewn arferiad gwastadawl.

Un nodeb, arbenig, a darddai 'n naturiol
 O'r pethau a enwais, fel cynyrch cynyddol,
 Oedd ei ddigrifwch! (canys ffrwyth ar wybodaeth
 A bywyd rhinweddawl yw hyn heb ameuath.)
 Os clod a ryglyddai *Dean Swift* am ei synwyr,
 Yr un mawl a haeddai ein gwrthddrych yn drylwyr:—
 Os dyn a ymlusgai i'w wydd dan fawr-loesion,
 Pe'r pruddglwyf a grogai fel plwm wrth ei galon,
 Chwai iawn y dychwelai i'w wedd ei sirioldeb,
 Gan wres ei gyfeillach, a grym ei synwryeb:
 Ei felys ddiddanion ar ddyn g'ai 'r un afael,
 A g'ai telyn Dafydd ar Saul brenin Israel.
 Ei 'mwelwyr, fel hyn, ddeiai 'n aml a chyson,
 I wrando 'i ddiniwed ffraethebawl ddiddanion.

Dwyn mil o engrheiffiau o'r amryw ragorion
 A harddent ei fywyd fel dyn, ac fel Cristion,
 F'ai 'n hawdd; ond yr hwn yn y pulpid a'i gwelodd,
 Ei holl ragoriaethau ar unwaith ganfyddodd:
 Ei swydd fel Gweinidog yn ngwaith y Goruchaf,
 Mewn llwydd a weinyddai dros hirfaith gynauaf,

* Flowerets.

I hyn ei cyssegrwyd ; ac yma 'r amlygodd
 Awdurdod a nerth y Duw mawr a'i anfonodd.
 Ei ddwys genadwri, ei wedd a ddynodai,
 Ac a'i ddull awdurdodawl ei phwys a chwanegai.
 Pan godai uwch tyrfa ei dreiddgar olygon,
 Enillai hwynt holl iddo 'i hun ag un galon,
 Agoriad ei enau mewn gweddi ddifyfyr
 Oedd fel pe toresid ar benau 'r gwrandawyr
 Flwch cyflawn o ennaint ysbrydol ei ddefnydd :
 Pob gair a phob amnaid a draethai ryw newydd :
 At ffydd ychwanegai hoff obaith goleu-drem,
 Nes hoelïai bob meddwl wrth byrth aur Caersalem.

Y gair pan egorai, enciliai anffyddiaeth
 I'w chaddug lle 'r hanodd !—llesmeiriai amheuaeth.
 Eglurai i ddynion ddych'myigion damhegawl
 Proffwydi gwlad Israel ; a'r dullwedd allegawl
 Mewn iaith a arferynt, a wyddai mor helaeth
 A phe y gweïniasai i'r un oruchwyliaeth.
 Eithafion dyfnforoedd Ezeziel a blymiai,
 Ac eang fras-diroedd Esaias fesurai.
 Dystewai plant addysg—ai 'n fud yr athrawon
 O'i flaen, pan gyfranai ei newydd drysorion ;
 Dadblygai ddirgelion, nes byddai doethineb
 Ei hun yn rhyfeddu gan wenu 'n ei wyneb !
 Yn destun fynychaf, (hwn hefyd a deimlai,)
 Rhyw ran ansathredig o'r Gair a ddewisai ;
 Ac ar ei agoriad canfyddid yn ebrwydd
 Y dorf yn cyd-wenu ar sail eu boddlonrwydd.
 Yr hyn oedd hyd yma yn ddiystyr a thywyll,

Ac a fernid fel swrn o ddiffeithwch gwag-erchyll,
 Yn awr a gyfrifid yn llawnach o emau
 Na'r holl a gynhwysa daiarol goronau.

Ei iachus athrawiaeth nid oedd yn ddilynol
 Ar neb rhyw awduron, am seilfaen, neu reol ;
 Eithr sail ei gryf obaith, a rheol ei grefydd,
 A'i fuchedd rinweddol, fu 'r Testament Newydd ;
 O hwn tynai allan ei saethau ysbrydol,
 Ac hefyd y Balm sy 'n iachau yn drag'wyddol ;
 Ei saeth pan ollyngai at galon pechadur,
 Ceid hwnw 'n ymollwng o eithaf ei natur,
 A'r Balm pan gymhwysai i'w glwyf, yn min trengu
 Ceid ef yn gweddio, a'r Nef arno 'n gwenu !
 Ei glod fyddai 'n rhedeg o'i flaen i bob lleoedd,
 Ac yntau ganlynid gan fwyrif y bobloedd :
 Gwnai 'n fyw gymanfaoedd a'i ddull tarawiadol,
 A chyda phob enwad ef oedd yn dderbyniol ;
 Ac nid yn mhell b'ai ei anrhydedd yn unig,
 Eithr hefyd yn nghartref ef oedd yn fawledig.

Yn *Sion*, Twyn 'r-odyn, y'i profwyd yn benaf,
 Lle bu hir flynyddau 'n weinidog o'r harddaf ;
 Canys yma 'i gymeriad a gyflawn sefydlodd,
 A choffa rhagorach o'i ol ni adawodd
 Marwol-ddyn :—ail waedu o'm mewn mae fy nghalon
 Wrth droi 'n adfyfyriol i gelloedd hen gofion :
 Bu 'n well genyf eistedd i wrando 'i 'madroddion,
 Na chael o gyflawnder aur-fyrddau t'wysogion ;
 Fel 'falau aur, aeddfed, ar lasnau o arian,
 I mi oedd ei eiriau o'i enau cyssegr-lan.

Ymdllosg o'i galar nid hawdd iawn i Sion*,
 Er cael ar ei muriau y dewraf o'r dewrion ;
 Er meddu i'w hannerch athrylith godidog
 Apollos ireiddfant yn Jones† ei gweinidog,
 Mawr firwyth ei ddarfelydd‡ ese pan draddoda
 Gan wlith ei hyawdledd y graig a flodeua ;
 Hyn oll ni ddilea 'i theimpladau gorddrylliog
 Ar ol ei hoff SAUNDERS, ei thad a'i gweinidog.

Er iddo yn ucher§ ei fywyd ddyoddef
 Oddiwrth amgylchiadau gythryblai ei dangnef ;
 Mewn amynedd fel Job ymostyngodd i'r cyfan,
 Gan dawel gydnabod llaw Duw yn yr amcan ;
 Deallodd, mai tòri llinynau cyssylltiad
 Y byd a'i serchiadau wnaï pob gwrthdarawiad ;
 Ystyriai bob awel, pa gryfaf y chwythai,
 I'r porthladd dymunol mai cynt y cyrhaeddai ;
 Nes profi o'r diwedd yr awel a'i chwythodd
 O'r cefnfor tymhestlog i'r man y dymunodd.

* Capel Sion, lle yr oedd yn Weinidog parchus er ys mwy na
 25ain o'flynnyddau.

† Y Parch. J. Jones, Gweinidog presenol yr eglwys uchod.

‡ Imagination. § Prydnawn.